

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Cynnwys

Canllawiau digwyddiadau	4
Rhestr Wirio Digwyddiadau	4
Diogelwch y digwyddiad	5
Grwpiau Cynghori Diogelwch (SAGs)	5
Cynllunio ymlaen llaw, ble, pryd, pwy, beth? Rhestr wirio	6
Cod Ymarfer	7
Trefniadau llesiant	7
Amserlen	7
12 Mis cyn y digwyddiad	7
9 Mis cyn y digwyddiad	8
6 Mis cyn y digwyddiad, ar ôl i'r tîm TME ei gymeradwyo:	8
2 Mis cyn y digwyddiad:	8
1 Mis cyn y digwyddiad:	9
Ar ôl y digwyddiad	9
1 Wythnos ar ôl y digwyddiad:	9
Caniatadau arbennig	9
Trwydded Digwyddiadau Dros Dro:	9
Trwydded Safle Llawn:	9
Digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar dir neu eiddo sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych:	10
Yswiriant	10
Cynllun y digwyddiad	11
Trefnu'r digwyddiad	11
Sefydlu pwyllgor digwyddiad	11
Cyngor gan y gwasanaethau brys a rhanddeiliaid eraill	11
Cynllun y safle	12
Cynllun argyfwng ac asesiadau risg	12
Strwythurau dros dro	13
Arlwyo	13
Amddiffyn Plant a Dyletswydd Gofal	13
Stiwardiaid, Staff a Gwirfoddolwyr	13
Rheoli tyrfaoedd	14
Niferoedd sy'n mynychu	14
Mynediad cynhwysol	14
Sicrhau bod eich digwyddiad yn ddwyieithog	15
Diogelwch	15
Yr Heddlu	15
Cludiant	16
Contractwyr	16
Cyfleusterau a chyfleustodau	16

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Cynlluniau wrth gefn	17
Clirio	17
Perfformwyr	17
Hyrwyddo digwyddiadau	18
Digwyddiadau ar briffyrdd	18
Cynllun Rheoli Traffig:	19
Traffig ar y safle	20
Traffig oddi ar y safle	20
Arwyddion rheoli traffig ar y briffordd	20
Arwyddion cyfeiriol ar gyfer y digwyddiad	21
Gwiriadau olaf!	22
Llwybrau	22
Arolygiadau	22
Lleoli	22
Arwyddion yn y digwyddiad	22
Cerbydau	22
Strwythurau	22
Rhwystrau	23
Stiwardiaid	23
Gwybodaeth i'r Cyhoedd	23
Briffio	23
Ar ôl y digwyddiad	23
Cyflwr y safle	23
Damweiniau	24
Adrodd yn ôl a Dadansoddi'r Digwyddiad	24
Manylion cysylltu Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned lleol	24

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Canllawiau digwyddiadau

Mae digwyddiadau yn elfen bwysig o fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn Sir Ddinbych ac maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan drigolion, busnesau ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gall digwyddiadau fod yn ffordd hawdd i gyfathrebu â llawer o bobl ar unwaith. Ond iddynt fod yn llwyddiant, mae angen sicrhau eu bod wedi eu cynllunio'n drwyadl i'r manylyn diwethaf, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu marchnata'n dda. Mae'r canllawiau canlynol yn nodi rhai o'r pethau sydd angen i chi ystyried.

Bydd angen canllawiau ychwanegol ar gyfer digwyddiadau arbenigol a digwyddiadau ar raddfa fwy. Llenwch y Ffurflen Hysbysu am Ddigwyddiadau os ydych yn cynllunio cynnal digwyddiad yn y sir.

Ewch i dudalen gwe Cyngor Sir Ddinbych cynnal [digwyddiad yn Sir Ddinbych](#)

Mae llawer o gymdeithasau cenedlaethol hefyd a allai gynnig cyngor ar fathau penodol o ddigwyddiad.

Rhestr Wirio Digwyddiadau

- Gwneud Asesiad Risg o'ch digwyddiad
- Ystyried y cyfleusterau llesiant? e.e. toiledau, basnau ymolchi, dŵr yfed
- Dynodi pobl Cymorth Cyntaf?
- Cael cynllun safle manwl ar gyfer eich digwyddiad?
- Cael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer eich digwyddiad
- Rhoi manylion am unrhyw fwyd neu ddiod poeth/oer sydd yn cael eu cyflenwi i'r digwyddiad
- Sefydlu eich cynulleidfa darged
- Cael trwyddedau SIA a gwiriadau DBS ar gyfer unrhyw stiwardiaid / gwirfoddolwyr / staff yn y digwyddiad
- Ystyried yr Iaith Gymraeg?
- Meddwl am systemau Trydanol y byddwch yn eu defnyddio
- Cynllunio sut mae ailgylchu a gwaredu ysbwriel o'ch digwyddiad
- Gwirio a fydd eich digwyddiad yn cael ei gynnal ar dir preifat neu gyhoeddus

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

- A ydych wedi cysylltu â'ch Cynghorwyr Sir a'ch Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned i'w hysbysu am eich digwyddiad?

Diogelwch y digwyddiad

Y pethau cyntaf, yn gyntaf - meddyliwch am ddiogelwch! Mae'r sawl sy'n mynychu'r digwyddiad, gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr ac unrhyw un sy'n rhan o'r digwyddiad angen mwynhau'r diwrnod heb risg i'w iechyd, diogelwch a lles.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal asesiad risg manwl – rhaid i'r holl ddiwyddiadau gydymffurfio â safonau diogelwch cydnabyddedig a rhaid i chi gymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel.

Mae gan yr HSE wefan benodol ar gyfer Cyngor ar [Ddiogelwch Digwyddiad](#)

Grwpiau Cynghori Diogelwch (SAGs)

Lle mae nifer fawr o bobl yn ymgynnull, mae potensial am sefyllfaoedd peryglus neu i faterion diogelwch y cyhoedd godi. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae SAG yn eu lle sy'n cynnwys aelodau o'r Awdurdod Lleol, Adran Priffyrdd a'r Gwasanaethau Brys. Mae'r SAG yn darparu fforwm i drefnwyr digwyddiadau gyflwyno eu cynlluniau digwyddiad a derbyn arweiniad er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol at ddiogelwch yn y digwyddiad arfaethedig.

Mae digwyddiadau yn dod i sylw SAG drwy nifer o ffyrdd fel yr heddlu, yr awdurdod lleol neu drefnydd y digwyddiad. Mewn ardaloedd lle nad oes SAG yn bodoli argymhellir fod y trefnydd yn trefnu cyfarfod aml-asiantaeth fel y gellir rhoi gwybod i'r holl asiantaethau â diddordeb am y digwyddiad a thrafod unrhyw faterion sydd ganddynt gyda threfnwyr y digwyddiad.

Mae'n bwysig cofio bod trefnydd y digwyddiad yn gyfrifol am redeg y digwyddiad yn ddiogel. Nid rôl yr SAG yw cynllunio'r digwyddiad, ysgrifennu cynlluniau rheoli na chynhyrchu asesiadau risg (ac eithrio mewn perthynas â'u sefydliadau eu hunain). Diben y SAG a'i aelodau yw adolygu'r cynlluniau rheoli digwyddiad a chynnig arweiniad ar ddiogelwch.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Cyngor yw'r holl sylwadau ac arsylwadau a wnaed gan y SAG bob amser.

Cynllunio ymlaen llaw, ble, pryd, pwy, beth? Rhestr wirio

Ble fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal? Ydych chi wedi canfod lleoliad addas ac a oes gennych ganiatâd i'w defnyddio?

Bydd yn effeithio ar y gymuned lle bydd eich digwyddiad yn cael ei gynnal. Mae angen i chi feddwl am ba effaith gaiff eich digwyddiad ar y gymuned a pha mor hawdd fydd i bobl gyrraedd? Bydd nifer uwch o ymwelwyr mewn ardal yn effeithio ar y seilwaith, yr economi leol a'r ffordd 'arferol' o fyw. Ystyriwch y math o dir ac os oes anifeiliaid wedi bod yno cyn eich digwyddiad. Hefyd, oes gofynion parcio ceir addas? Hefyd a oes yna ofynion parcio ceir addas?

Ystyriwch pryd fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal gan gynnwys yr adeg o'r flwyddyn a'r diwrnod o'r wythnos - hefyd dylech geisio sicrhau nad yw eich digwyddiad yn gwrthdaro ag unrhyw ddigwyddiadau mawr eraill yn eich ardal.

At bwy mae'r digwyddiad wedi'i anelu - plant ifanc, pobl ifanc, pobl hŷn neu bob gydag anableddau?

Pa fath o weithgareddau fydd ar gael? Ydyn nhw'n peri unrhyw beryglon posibl? Fydd unrhyw offer arbenigol yn cael ei ddefnyddio yn y digwyddiad?

A oes gan drefnwyr y digwyddiad drwyddedau perthnasol i ddefnyddio'r offer? A fydd gweithgarwch corfforol eich digwyddiad yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol?

Mae mathau o ddigwyddiadau yn cael eu mesur gan y nifer o bobl sy'n mynych; Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o'r dosbarthiad ar gyfer digwyddiad a gynhelir yn Sir Ddinbych:

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Math o ddigwyddiad	Nifer yn mynychu
Mawr	Dros 5000
Sylweddol	1000 i 5000
Llai	500 i 1000
Cymuned fechan	Dan 500

Cod Ymarfer

Ar gyfer digwyddiadau mwy, bydd angen i chi gydymffurfio â chanllawiau, yn enwedig y Cod Ymarfer ar gyfer Digwyddiadau Awyr Agored a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Digwyddiadau Awyr Agored Genedlaethol. Ewch i www.noea.org.uk i gael mwy o gyngor. Awgrymir hefyd eich bod yn darllen Canllawiau HSE ar Ddiogelwch mewn Digwyddiadau.

Trefniadau llesiant

Faint o bobl ydych chi'n disgwyl fydd yn mynychu a pha mor hir fydd y digwydd yn bara. Yna gall y byddwch amcangyfrif eich gofynion toiled a chymorth cyntaf. Rhoddir rhagor o gyngor yn y Cod Ymarfer ar gyfer Digwyddiadau Awyr Agored .

Amserlen

Rhowch gymaint o amser â phosibl i chi eich hun drefnu'r digwyddiad. Efallai y bydd angen cyngor arbenigol a chaniatâd, a gallai hyn gymryd amser.

Mae cynllunio digwyddiadau yn gofyn am feddwl yn ofalus am amseru. Byddem yn argymhell eich bod yn ystyried cynllun digwyddiad canlynol:

12 Mis cyn y digwyddiad:

- Nodi dyddiad a lleoliad
- Cynnal eich cyfarfod cyntaf, penderfynu pwy sydd eisiau cyfranogi

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

- Amserlennu cyfarfodydd rheolaidd
- Pennu amcanion ar gyfer y digwyddiad
- Penderfynu ar ba adnoddau sydd eu hangen , yn arbennig cyllid
- Llenwi ffurflen hysbysiad y Cyngor, ei gyrru i'r Tîm Twristiaeth ac yn delio yn uniongyrchol gyda'r swyddog perthnasol

9 Mis cyn y digwyddiad:

- Hysbysu darparwyr gwasanaethau brys am y digwyddiad. Os oes angen sefydlu Grŵp Cynghorydd Diogelwch (SAG) sefydlu o dan y Cyngor, gwnewch hyn yn awr
- Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, archebwch y dyddiad a'r lleoliad ar gyfer y digwyddiad
- Trefnu yswiriant digonol
- Gwneud cais am drwyddedau perthnasol
- Dylunio deunydd hyrwyddo
- Sicrhau bod yr holl faterion iechyd a diogelwch yn cael sylw
- Cysylltu'n uniongyrchol â'r swyddogion DCC perthnasol

6 Mis cyn y digwyddiad, ar ôl i'r tîm TME ei gymeradwyo:

- Archebu adloniant, arlwyo, offer ac ati
- Cynnal ymweliadau safle i wirio cynlluniau paratoi

2 Mis cyn y digwyddiad:

- Mynd ar drywydd unrhyw ganiatadau/trwyddedau sydd eu hangen
- Cadarnhau'r holl archebion yn ysgrifenedig
- Dechrau dosbarthu deunydd marchnata
- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

1 Mis cyn y digwyddiad:

- Amserlennu datganiadau i'r wasg cyn y digwyddiad
- Cynnal sesiynau briffio tîm a chefnogi

Ar ôl y digwyddiad

- Ar ôl y digwyddiad sicrhewch bod safle'r digwyddiad yn cae, ei glirio a bod gwastraff yn cael ei waredu'n gyfrifol

1 Wythnos ar ôl y digwyddiad:

- Anfon datganiadau i'r wasg ar ôl y digwyddiad

Caniatadau arbennig

Mae'n debygol y byddwch angen Trwydded Safle neu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro os yw'r digwyddiad yn cynnwys gwerthu alcohol neu adloniant sy'n cynnwys cerddoriaeth, canu, dawnsio, sioeau, ffilmiau a rhai chwaraeon fel bocsi a reslo. Efallai y bydd ffi yn dibynnu ar faint a lleoliad y digwyddiad. Dyma'r mathau o drwyddedau fydd eich digwyddiad efallai eu hangen:

Trwydded Digwyddiadau Dros Dro:

Dylech gyflwyno cais am drwydded Digwyddiadau Dros Dro os ydych yn disgwyl mwy na 499 o bobl ar unrhyw un adeg ac nad yw'r digwyddiad yn para mwy 7 diwrnod. Mae hyn yn ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Mae alcohol ac adloniant a lluniaeth hwyr y nos yn cael eu cynnwys yn yr un awdurdodiad. Rhaid i chi gyflwyno'r hysbysiad o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Mae'n costio £21

Trwydded Safle Llawn:

Ar gyfer digwyddiadau sy'n fwy na 500 o bobl neu sy'n para'n hirach na 7 diwrnod, bydd angen cael trwydded safle llawn. Bydd angen i chi wneud cais o leiaf 2 fis cyn y

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

digwyddiad ar gyfer y math hwn o drwydded. Mae'r ffioedd yn amrywio yn ôl maint y digwyddiad.

Am wybodaeth bellach, gallwch siarad gyda'r swyddog trwyddedu lleol ar 01824 706342.

Sicrhewch eich bod yn bodloni rheoliadau Cymdeithas Hawliau Perfformio mewn perthynas â defnyddio cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio yn eich digwyddiad. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar [wefan cymdeithas hawliau perfformio](#).

Cofiwch hefyd gadw llygad ar lefelau sŵn yn ystod y digwyddiad.

Digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar dir neu eiddo sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych:

- Mae angen yswiriant indemniad cyhoeddus am £5miliwn o leiaf i gynnal digwyddiadau. Mae'n ofynnol ar gyfer pob achos o logi gennym, boed yn bicnic wedi'i gynllunio neu'n ddigwyddiad mawr.
- Byddai hefyd angen i chi ddarparu cyfeiriad cofrestredig llawn y grŵp.
- Byddai tâl o £50 am gytuno ar y diwrnod. Byddai hyn yn talu'r costau gweinyddu sylfaenol; mae hyn yn seiliedig ar ffi digwyddiad elusennol/cymunedol.
- Byddai digwyddiadau masnachol yn hyd at £150 ar gyfer drafftio'r drwydded a ffi dyddiol ar gyfer defnyddio'r tir. I gael mwy o wybodaeth am y costau yma cysylltwch â'r rhif isod.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Phrisiadau ac Ystadau gwasanaeth.eiddo@sirddinbych.gov.uk neu 01824 706814.

Yswiriant

Mae pob digwyddiad angen Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Hefyd, bydd yr holl contractwyr a pherfformwyr angen eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu hunain gyda'r Terfyn Indemniad £5 miliwn. Hefyd, efallai bydd angen yswiriannau eraill. Dylid cael dyfynbrisiau gan eich darparwr yswiriant. DS – pan gynhelir digwyddiadau ar safle a/neu dir Cyngor Sir Ddinbych, nid ydych wedi eich yswirio gan yswiriant y Cyngor. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych yswiriant priodol.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Cynllun y digwyddiad

Dylai wich cynllun digwyddiad ystyried sut y byddwch yn hyrwyddo a marchnata eich digwyddiad.

Meddyliwch am:

- bwy rydych chi'n ceisio eu targedu,
- pa negeseuon ydych chi eisiau eu cyrraedd nhw,
- pryd ydych chi am i'r neges eu cyrraedd,
- lle fyddan nhw'n clywed am eich digwyddiad,
- sut fyddwch chi'n cael gwybodaeth am eich digwyddiad i'ch cynulleidfa (sianeli cyfryngau a chyfathrebu)

Meddyliwch am gyfleoedd gan gynnwys y wasg (argraffu ac ar-lein), hysbysebu, gwefannau, deunyddiau wedi'u hargraffu, cyfryngau cymdeithasol, digidol ac ati.

Trefnu'r digwyddiad

Sefydlu pwyllgor digwyddiad

Rhowch gyfrifoldeb i bob aelod o'r pwyllgor yn seiliedig ar eu haddasrwydd.

Sicrhewch eich bod yn:

- Nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir ac yn gywir gyda'r sgiliau priodol
- Neilltuo un person i fod yn brif bwynt cyswllt
- Nodi tasgau ar gyfer gwirfoddolwyr

Cyngor gan y gwasanaethau brys a rhanddeiliaid eraill

Dylech gael cyngor gan yr heddlu lleol, y gwasanaeth tân, ambiwlans a darparwyr cymorth cyntaf yn ogystal â'ch cyngor cymuned leol.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Mae manylion cysylltu eich Cynghorydd Sir a'ch Cynghorydd Dinas, Tref a Chymuned lleol yn Adran 6.

Cynllun y safle

Dylech gynllunio gosodiad y safle ar gyfer y digwyddiad gan gynnwys lle fydd popeth yn mynd, y pwyntiau mynediad ac allanfa, llwybrau cylchredeg, mynediad i gerbydau a llwybrau dianc mewn argyfwng. Dylech bob amser nodi digon o le ar gyfer consesiynau, toiledau, cymorth cyntaf, diddanwyr a seddi, parcio digonol neu gysylltiadau i gludiant cyhoeddus a bod yr holl fynedfeydd hanfodol ar gael at gyfleusterau. Dylai eich cynllun safle gynnwys:

- Allanfeydd argyfwng a'r holl allanfeydd a mynedfeydd eraill
- Llwybrau mynediad brys
- Llwyfannau ac ardaloedd perfformio
- Generaduron trydanol
- Toiledau
- Parcio i'r anabl a thoiledau anabl
- Meysydd parcio
- Cyfleusterau arlwyo
- Offer ymladd tân
- Ardaloedd Cymorth Cyntaf
- Ardaloedd eistedd
- Parthau perygl fel dŵr, grisiau, ochrau serth, arwynebau anwastad, ffyrdd ac ati

Cynllun argyfwng ac asesiadau risg

Gwnewch yn siŵr fod gennych gynllun ar waith rhag ofn y ceir argyfwng. Yn amlwg bydd manylion y cynllun yn dibynnu ar faint a natur y digwyddiad.

Dylai eich asesiad risg gynnwys:

- Nodi peryglon posibl
- Y lifer risg - uchel, canolig neu isel

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

- Disgrifiad o sut y bydd lefel y risg yn cael ei leihau

Strwythurau dros dro

Llwyfannu, pebyll, pebyll mawr, stondinau ac ati - dim ond rhai o'r strwythurau dros dro mae'n bosibl y byddwch eu hangen ar gyfer eich digwyddiad. Dylech ddod o hyd i rywun cymwys i'w codi a dylid nodi lleoliad strwythurau o'r fath ar y cynllun safle. Dim ond gan gyflenwyr profiadol y dylid cael strwythurau dros dro.

Arlwyo

Os oes angen arlwywr arnoch, cymrwch gamau cyfrifol i sicrhau bod ganddynt enw da – a sicrhewch eu bod wedi cofrestru gan awdurdod lleol a gwiriwch eu graddfa hylendid drwy ymweld â [gwefan sgorau hylendid bwyd](#)

RHAID i unrhyw fusnes bwyd sy'n gwneud cais i fynychu'r digwyddiad fod â sgôr hylendid bwyd o 3 neu uwch i fasnachu. Yn gyfreithiol mae'n rhaid i arlwywyr ddangos eu sgôr yn ystod cyfnod y digwyddiad. Gellir cael canllawiau pellach gan Dîm Gorfodi Bwyd y Cyngor ar 01824 706305

O ran gosodiad, gwnewch yn siŵr bod arlwywyr wedi'u gosod mewn lleoliad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd gweithgarwch plant a ger cyflenwadau dŵr ac y gadewir digon o le rhwng cyfleusterau arlwyo i atal unrhyw risg o ymlediad tân.

Amddiffyn Plant a Dyletswydd Gofal

Os yw eich digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau plant, mae'n syniad da, ac mewn rhai amgylchiadau yn ofyniad cyfreithiol, i gael polisi amddiffyn plant.

Stiwardiaid, Staff a Gwirfoddolwyr

Rhaid i stiwardiaid mewn digwyddiadau mwy gael eu briffio'n llawn ar bob agwedd ar y digwyddiad, gan gynnwys trefniadau mewn argyfwng a rheoli tyrfa. Rhowch gyfarwyddiadau ysgrifenedig, cynlluniau safle a rhestrau gwirio iddynt. Dylai'r holl

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

stiwardiaid gael eu hyfforddi'n briodol a bod yn gymwys gan y bydd angen iddynt gadw llygad am unrhyw beryglon yn ystod y digwyddiad.

Dylech bob amser sicrhau bod gennych ddigon o staff neu wirfoddolwyr â chymwysterau addas i oruchwylio'r nifer o blant a phlant o'r oedran sy'n cymryd rhan. Dylai'r holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant ymgymryd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Hefyd, dylech fod yn hynod wiliadwrus wrth ddefnyddio lluniau o blant.

Gofynnwch bob amser am ganiatâd gan rieni, gwarcheidwaid neu athrawon os tynnir lluniau o blant.

Rheoli tyrfaoedd

Bydd y math o ddigwyddiad a'r niferoedd yn pennu'r mesurau angenrheidiol. Meddyliwch am y nifer, y math a lleoliad rhwystrau a darpariaeth system annerch y cyhoedd.

Niferoedd sy'n mynychu

Mae'n rhaid sefydlu beth yw'r nifer mwyaf o bobl gall y digwyddiad ei ddal yn ddiogel. Efallai y bydd angen cyfrif y nifer o bobl sy'n mynychu i osgoi gorlenwi.

Mynediad cynhwysol

Mae mynediad cynhwysol yn sicrhau y gall pawb fynd i mewn ac o amgylch datblygiadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir.

Sicrhewch bod digwyddiadau yn hygyrch i bawb. Mynediad cynhwysol yw canlyniad dylunio cynhwysol ynghyd â rheoli, gweithredu a chynnal a chadw; a staff cadarnhaol wedi'u hyfforddi'n dda. Bydd y cyfleusterau yn y lleoliad yn penderfynu pwy fydd yn gallu cymryd rhan, hefyd sut rhoddir sylw i anghenion penodol er enghraifft.

- Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a darpariaeth parcio ceir
- Dull i adeilad ac o'i amgylch
- Darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu ee, Iaith Arwyddion Prydain
- Gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill
- Cydnabyddiaeth o anghenion diwylliannol a chrefyddol

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

- Cyfleusterau crèche ac ati

Roedd cyflwyniad rhan 3 o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar 1 Hydref 2004 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaeth i wneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol eu safleoedd i oresgyn rhwystrau corfforol i fynediad. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sicrhau bod pobl anabl a grwpiau gwarchoddedig eraill yn cael eu cwmpasu.

Nid yw'n ymwneud â disgwyl i rywun gael ei eithrio, ond mae'n ddyletswydd ragflaenol a pharhaus.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [wefan hawliau dynol a chydraddoldeb](#)

Sicrhau bod eich digwyddiad yn ddwyieithog

Gall paratoi deunyddiau dwyieithog, fel arwyddion, deunydd hyrwyddo, ehangu apêl eich digwyddiad a chryfhau ei delwedd ddwyieithog gyhoeddus. Mae'n arfer gorau i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth drefnu a darparu digwyddiad

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [wefan hawliau dynol a chydraddoldeb](#)

Diogelwch

Yn dibynnu ar natur y digwyddiad, efallai y bydd trefniadau diogelwch penodol yn angenrheidiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer diogelwch eiddo dros nos. Dylid cynllunio casglu arian i sicrhau y cedwir cyn lleied â phosibl mewn manau casglu a bod casgliadau rheolaidd yn cael eu gwneud i ardal ddiogelwch.

Yr Heddlu

Mae rôl yr heddlu mewn digwyddiadau a gynlluniwyd ymlaen llaw yn gyfyngedig i'w cyfrifoldebau craidd. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses cynllunio digwyddiad bydd yr heddlu yn adolygu'r cynlluniau rheoli traffig a chynlluniau'r digwyddiad drwy'r Grŵp Cyngori Diogelwch, os bydd angen sefydlu'r grŵp hwn a darparu cyngor ac arweiniad lle bo angen. Ni allant ddarparu adnoddau i roi cynlluniau rheoli traffig ar waith mewn perthynas

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

â digwyddiadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw. Mae gofyn i drefnwyr sicrhau fod eu cynlluniau yn gadarn ac yn gallu cael eu gweithredu gan stiwardiaid wedi'u hachredu'n addas. Mae defnyddio stiwardiaid a marsialiaid preifat wedi dod yn ffordd gydnabyddedig o gefnogi digwyddiadau wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod ei bod yn anghyfreithlon i stiwardiaid a marsialiaid gyfeirio traffig ar briffordd gyhoeddus.

Dylai trefnwyr hysbysu'r heddlu am eu digwyddiad ar gam cynnar o'r broses gynllunio.

Os oes gennych ddiwyddiad yr ydych yn credu y dylai'r heddlu wybod amdano dylech anfon at ei blwch postio penodol ar gyfer cynllunio digwyddiad.

ossplanning@nthwales.pnn.police.uk

Cludiant

Rhowch wybod i'r cwmnïau bysiau a rheilffyrdd lleol am eich digwyddiad – bydd angen iddynt wybod o fydd gwasanaethau presennol yn ddigonol, ac os bwriedir unrhyw ddargyfeirio neu gau ffyrdd.

Contractwyr

Dylech fetio eich contractwyr! Lle bo'n bosibl, ceisiwch gael a mynd ar drywydd tystlythyrau personol, gofynnwch am gopi o'u polisi diogelwch ac asesiad risg, er mwyn bod yn dawel eich meddwl y byddan nhw'n cyflawni'r dasg yn ddiogel. Gofynnwch bob amser am gael gweld eu tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a ddylai rhoi terfyn indemniad o £5 miliwn o leiaf.

Cyfleusterau a chyfleustodau

- Lle mae trydan, nwy neu ddŵr yn cael eu defnyddio, rhaid gwneud trefniadau manwl i sicrhau bod y cyfleusterau yn ddiogel.
- Dylai unrhyw offer sy'n cael ei logi ddod gyda thystysgrif diogelwch trydanol ac os cynhelir digwyddiadau y tu allan, dylid defnyddio torwyr cylchedau cerrynt gweddilliol ac os yn bosibl, troi'r cyflenwad pŵer i lawr 110 o foltiau.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

- Ni ddylid diystyru peryglon posibl oherwydd tywydd eithafol mewn digwyddiadau y tu allan.
- Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o gyflenwadau nwy cludadwy mewn ardaloedd dynodedig i ffwrdd oddi wrth y cyhoedd cyffredinol. Dylai'r un peth fod yn berthnasol hefyd i unrhyw eitemau cyflenwadau tanwydd fel generaduron cludadwy ac ati.
- Dylid gosod ffensiau neu rwystrau addas o amgylch generaduron er mwyn atal mynediad y cyhoedd o fannau cyhoeddus.
- Dylid dangos yr holl drefniadau hyn yn glir ar y cynllun safle.

Cynlluniau wrth gefn

Mae rhai pethau allan o'ch rheolaeth – fel y tywydd neu atyniad ddim yn troi fyny. Oes gennych chi Gynllun B, lleoliad amgen, rhywun arall sy'n gallu cymryd rhan ar fyr rybudd? Dylech bob amser ddisgwyl yr annisgwyl a bod yn barod!

Clirio

Gwnewch yn siŵr bod gennych gynlluniau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a chlirio sbwriel yn ystod ac ar ôl y digwyddiad. Os yw'r digwyddiad yn creu sbwriel, yna mae'n rhaid cynnig darpariaeth ddigonol i'w gasglu a'i wared drwy gwmni gwaredu gwastraff trwyddedig priodol. Ni ellir mynd â sbwriel i ganolfannau ailgylchu gwastraff cartref.

Ar ôl y digwyddiad sicrhewch bod safle'r digwyddiad yn cae, ei glirio a bod gwastraff yn cael ei waredu'n gyfrifol.

Perfformwyr

Dylai pob perfformiwr gael eu hyswiriannau a'u hasesiadau risg eu hunain (sicrhewch eich bod yn cael copiâu). Os ydych yn defnyddio perfformwyr amatur, trafodwch eich gofynion manwl gyda nhw a sicrhau y byddan nhw'n cydymffurfio gyda'ch rheolau iechyd a diogelwch a chynllun digwyddiad. Lle bo'n briodol, cyflawnwch wiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy ddefnyddio [gwefan y Swyddfa Gartref](#).

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Hyrwyddo digwyddiadau

Mae'n hanfodol i lwyddiant y digwyddiad ei fod yn cael ei a'i hysbysebu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac mae'r Cyngor yn awyddus i gefnogi trefnwyr i sicrhau y gwneir hyn yn effeithiol.

Sicrhewch bod y Cyngorwyr Sir Lleol a'r Cyngorwyr Dinas, Tref a Chymuned yn ymwybodol bod eich digwyddiad yn digwydd yn eu hardal. Mae manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd y ffurflen hysbysu am ddigwyddiadau.

Dylai trefnwyr feddwl yn ofalus am y ffordd orau i wneud hyn ac mae nifer o bethau i'w hystyried, yn enwedig mewn perthynas â lleoliad ffisegol baneri ac arwyddion.

Gallwch arddangos hysbysebion sy'n ymwneud â digwyddiadau lleol heb fod angen caniatâd penodol ond mae hyn yn ddarostyngedig i amodau penodol.

Mae nodyn Canllaw Cynllunio Atodol y Cyngor mewn perthynas â Hysbysebu'n darparu cyngor ar lle y gellir arddangos [arwyddion a baneri](#) ac yn nodi'r amodau safonol amrywiol.

Gwiriwch gyda swyddogion perthnasol CSDd a restrir ar yr e-bost ymateb i hysbysiad am ddigwyddiad mewn perthynas ag arwyddion.

Digwyddiadau ar briffyrdd

Mae'n bwysig bod y digwyddiadau hyn yn digwydd mewn modd mwy diogel ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar y briffordd ac i ganiatáu i Gyngor Sir Ddinbych brosesu'r cais.

Mae'n ofynnol cael 3 mis o rybudd ar gyfer yr holl ddigwyddiadau ar ein priffyrdd er mwyn sicrhau na allai unrhyw beth effeithio ar gynnal eich digwyddiad

Gwybodaeth gyffredinol, cwestiynau i feddwl amdanynt:

Os ydych yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar y briffordd gyhoeddus ydych chi wedi dileu pob lleoliad oddi ar y stryd yn gyntaf? Oes angen i chi gau unrhyw rhan o'r Briffordd Gyhoeddus (Ffordd, Stryd, Ymyl, Troetffordd, Palmant, Llwybr Troed Cyhoeddus neu Llwybr Ceffylau) neu angen newid i stryd un ffordd i wella diogelwch traffig? Ni chaniateir i drefnydd y digwyddiad gau unrhyw ran o'r briffordd gyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Bydd y math o ddigwyddiad hefyd yn effeithio ar y math o drwyddedau a Gorchmynion Traffig Dros dro a allai fod yn ofynnol. Cyngor Sir Ddinbych fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am gyflwyno gorchmynion traffig dros dro ac am gau ffyrdd.

I gynnal digwyddiad mae Priffyrdd Cyhoeddus yn gofyn i drefnydd digwyddiad gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am o leiaf £5,000,000 ac mae'n rhaid iddo fod yn ddilys ar gyfer dyddiad y digwyddiad. Rhaid cyflwyno copi gyda thystiolaeth sy'n dangos fod yr yswiriant yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad yn yr holl leoliadau ar y priffyrdd a hefyd ar dir/eiddo sydd yn eiddo i'r Cyngor.

Cynllun Rheoli Traffig

Mae'n bwysig bod y Cyngor a'r gwasanaeth brys yn cael eu cynnwys ar y cyfle cynharaf.

Mae'n rhaid i drefnwyr digwyddiad ystyried y goblygiadau rheoli traffig a diogelwch ffyrdd digwyddiad ar gam cynnar. Os nad roddwyd sylw i'r goblygiadau rheoli traffig neu y gallai'r digwyddiad beri aflonyddwch difrifol a phryderon ffyrdd, yna mae'n bosibl na chaniateir bwrw ymlaen gyda'r digwyddiad. Rhaid cwblhau cynllun rheoli traffig a'i gyflwyno gyda'ch ffurflen gais ac ni ddylai gynnwys y defnydd o adnoddau heddlu er mwyn rheoli a chyfeirio traffig.

Meddyliwch am:

- Sut fydd traffig yn cael ei drefnu ar y briffordd gyhoeddus a lle fydd y llwybrau mynediad a gadael ar gyfer ymwelwyr a'r gwasanaethau brys.
- Sut fyddwch chi'n delio â cherbydau'n torri lawr neu wrthdrawiadau ar y llwybrau hyn?
- Mae'n rhaid i'ch cynllun gynnwys asesiad risg llawn sy'n nodi'r risgiau i'r cyhoedd sy'n teithio, y cyfranogwyr a'r gweithwyr sy'n mynychu'r digwyddiad yn glir, ac yn ei archwilio'n ofalus.
- Mae hefyd angen ystyried natur, lleoliad ac amgylchedd y digwyddiad.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Traffig ar y safle

- Dylid rheoli cerbydau contractwyr a/neu berfformwyr a thraffig arall yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwahanu oddi wrth gerddwyr. Efallai y bydd angen caniatáu mynediad i gerbydau ar adegau penodol ac nid yn ystod y digwyddiad ei hun.
- Dylid darparu mynedfeydd ar wahân ar gyfer cerbydau a cherddwyr gyda threfniadau penodol ar gyfer mynediad i gerbydau gwasanaethau brys.
- Ble mae pobl yn mynd i barcio? Mae angen cyfleusterau parcio ceir yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau oherwydd bydd raid iddynt gael eu stiwardio.

Traffig oddi ar y safle

- Dylid trafod rheoli traffig y tu mewn a thu allan i'r safle gyda'r heddlu i osgoi'r posibilrwydd o ddamweiniau difrifol.
- Dylid darparu arwyddion a chyfarwyddiadau digonol mewn mannau amlwg wrth agosáu at y fynedfa.
- Os oes angen cau ffyrdd, arwyddion ar y briffordd, dargyfeiriadau traffig a/neu gonau, yna mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn rheoleiddio traffig a/neu gymeradwyaeth gan yr awdurdod priffyrdd. Ar gyfer priffyrdd, cysylltwch â 01824 706965 neu 01824706979.

Arwyddion rheoli traffig ar y briffordd

- Ar gyfer holl arwyddion y mae trefnydd y digwyddiad yn bwriadu eu gosod ar y briffordd, rydym angen manylion a chynlluniau, sy'n dangos yn glir pa arwyddion fydd yn cael eu gosod, lle dylid gosod pob arwydd a sut y cânt eu gosod (ar ffrâm neu ynghlwm i ddodrefn stryd), gelwir hyn yn atodlen arwydd.
- Mae angen i'r holl arwyddion fod yn lân ac yn ddarllenadwy, ac wedi'u hadeiladu o ddeunydd addas, i Safonau Prydeinig, gyda llythrennau printiedig ac yn addas i'r diben, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Ni chaniateir arwyddion sydd wedi'u

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

difrodi, difwyno neu wedi'u hysgrifennu â llaw. Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw cost yr arwyddion.

- Rhaid i'r contractwr arwyddion fod wedi'i achredu i osod arwyddion ar y briffordd a dim ond yr unigolyn achrededig all wneud hyn. Nid yw'r rhestr isod yn gyflawn, gan y gallai unrhyw berson achrededig arall osod arwyddion unwaith mae'r atodlen arwyddion wedi'i gymeradwyo gan yr adran Gwaith Stryd.

Contractwr

- JT&M Signs: 01745 590056
- AA Signs: 0800 731 7003
- Amberon: 0845 371 5050
- A Plant Lux Traffic Contro: 0370 050 0797

Arwyddion cyfeiriol ar gyfer y digwyddiad

Os ystyrir bod arwyddion yn angenrheidiol i gyfeirio traffig i'r digwyddiad, defnyddir y meini prawf canlynol i benderfynu a ganiateir yr arwyddion ar y priffyrdd:

- Ystyrir arwyddion os ydynt yn ffurfio rhan o'r cynllun rheoli traffig yn unig.
- Dim ond i arwain traffig sydd yn ceisio dod o hyd i'r digwyddiad y dylid defnyddio arwyddion ac felly byddant yn cael eu gosod yng nghyffiniau'r lleoliad dan sylw.
- Ni fydd arwyddion yn cael eu cymeradwyo os bwriedir eu defnyddio fel hysbysebion er mwyn denu ac annog masnach yn unig.
- Ni fydd yr arwyddion yn cael eu gosod fwy na 48 awr cyn y digwyddiad a byddant yn cael eu tynnu dim mwy na 24 awr wedi'r digwyddiad. Gellir cytuno ar osod yr arwyddion yn gynt os gellir dangos y byddai'n fuddiol i ddefnyddwyr ffyrdd eraill.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Gwiriadau olaf!

Llwybrau

Sicrhau llwybrau mynediad a gadael clir, a chylchrediad digonol yn y safle, yn enwedig llwybrau brys.

Arolygiadau

Dylid cynnal arolygiad taith gerdded drwy'r safle cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad i nodi unrhyw beryglon posibl a bod cyfathrebu yn gweithio.

Lleoli

Gwnewch yn siŵr bod yr holl gyfleusterau ac atyniadau yn cael eu lleoli'n gywir fel y nodir yn eich cynllun safle.

Arwyddion yn y digwyddiad

Sicrhewch fod arwyddion yn cael eu harddangos lle bo'n angenrheidiol gan gynnwys allanfeydd argyfwng, manau cymorth cyntaf, gwybodaeth a manau plant coll, toiledau a dŵr yfed.

Cerbydau

Holl gerbydau contractwyr, perfformwyr ac arddangoswyr wedi'u tynnu oddi ar y safle neu wedi parcio yn yr ardal ddynodedig cyn i'r cyhoedd gyrraedd

Strwythurau

Sicrhau bod holl lwyfannu, seddi, pebyll mawr a strwythurau goleuo a godwyd yn ddiogel ac y cafwyd ardystio gan y contractwyr perthnasol fel cofnod o hyn. Gwirio fod yr holl oleuadau yn gweithio gan gynnwys goleuadau argyfwng.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Rhwystrau

Mae angen rwystrau a chyfleusterau amddiffyn eraill rhag peryglon fod ar waith ac ni ddylai fod unrhyw risg o unrhyw un yn syrthio o lwyfannu neu gyfleusterau eraill.

Stiwardiaid

Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o staff wedi cyrraedd a'u bod yn eu lleoliad cywir.

Sicrhewch fod yr holl stiwardiaid yn gwisgo dillad cywir i'w hadnabod yn rhwydd.

Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Gwnewch yn siŵr fod eich system annerch y cyhoedd yn gweithio ac y gellir ei glywed yn yr holl ardaloedd ac oes gennych chi brotocol y cytunwyd arno ar waith ar gyfer cyhoeddiadau brys?

Briffio

Gwnewch yn siŵr bod yr holl stiwardiaid a staff wedi'u briffio'n llawn ac yn deall eu cyfrifoldebau.

Ar ôl y digwyddiad

Cyflwr y safle

Ar ôl y digwyddiad sicrhewch bod safle'r digwyddiad yn cae, ei glirio a bod gwastraff yn cael ei waredu'n gyfrifol.

Dylech gynnal arolygiad arall er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beth wedi'i adael ar y safle sy'n beryglus i ddefnyddwyr yn y dyfodol a nodi unrhyw ddifrod sydd efallai wedi ei achosi.

Os bydd unrhyw strwythurau'n cael eu gadael dros nos, dylech sicrhau eu bod yn cael eu gadael mewn cyflwr diogel ac yn cael eu gwarchod rhag fandaliaeth.

Pecyn Digwyddiadau Sir Ddinbych

Damweiniau

Gobeithio na fydd unrhyw ddamweiniau ond os oes damwain yn digwydd, dylech gasglu enwau a chyfeiriadau tystion a ffotograffau a llunio adroddiad. Hefyd, dylech lenwi ffurflen ddamwain ac anfon

copi at berchennog y tir a rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant eich hun.

Adrodd yn ôl a Dadansoddi'r Digwyddiad

Dylech adolygu eich digwyddiad ac ystyried sut y gallwch ei wneud hyd yn oed yn well y tro nesaf! Dylech gynnal asesiad effaith economaidd o'ch digwyddiad. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm twristiaeth.

Manylion cysylltu Cyngorwyr Sir a Chyngorwyr Dinas, Tref a Chymuned Lleol

Fe gewch y ddolen at [fanylion cyswllt Cyngorwyr Sir yma](#) a [manylion cyswllt y cyngorwyr dinas, tref a chymuned leol yma](#).